Breaking The Mould

Dechreuwyd y prosiect ‘Breaking the mould’ fel rhan o’r rhaglen y mileniwm i adfywio tipiau glo ac ardaloedd gwastraff. Y syniad oedd bod gan bob safle, o 21 safle Groundwork UK nodweddion tebyg ar eu safleoedd a oedd yn eu cysylltu â’i gilydd. Cynhaliwyd gweithdai amrywiol gyda phlant a’r bobl oedd yn ymwneud â’r gwahanol safleoedd, i ddylunio cerflun a allai gael ei ddefnyddio ar leoliadau gwahanol, mewn gwahanol ffyrdd - ‘Breaking the mould’ ydy canlyniad hynny.

Yr hyn a fyddai’n digwydd oedd y byddai’r artist, Andrew McKeown, yn dod i’r safle gyda fersiwn o’r model, wedi’i wneud o bolystyren, yng nghefn ei fan. Bydden ni’n dewis lleoliad, a byddai’n gosod y gwahanol ddarnau mewn modd a oedd yn teimlo’n briodol ar gyfer y safle hwnnw. Felly roedd y darnau talach y gallwch eu gweld yn anelu at waith glo Tyler Town, a’r lleill wedi eu gosod i greu ardal eistedd o amgylch yr ‘hedyn’, ac yn creu cerflun diddorol. Mae amryw o fersiynau gwahanol o’r cerflun hwn ar y 21 safle o amgylch y DU.

Ar y dechrau pan gafwyd y syniad i gael cerflun a fyddai’n gweddu 21 safle, roedden ni’n meddwl byddai’n anodd iawn i’w wneud. ‘Dw i ddim yn gwybod pa mor dda mae’n gweithio ar safleoedd eraill, ond mae’n ymddangos fel pe bai’n gweithio yn dda iawn ar Barc Penalltau, gan ei fod yn ymwneud ag adennill tir, am ddechrau newydd, ac mae’r hedyn dur yn codi o hen floc concrid yn ymddangos, rhywsut, yn briodol iawn i’r safle ei hun.